

Ar 6 Tachwedd 2020, daeth cynrychiolwyr tenantiaid o Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr Tai Canolbarth Cymru a Grŵp Monitro Tai Ceredigion ynghyd i ffurfio Grŵp Monitro Barcud. Cytunodd y ddau Grŵp blaenorol ar y cyd i fabwysiadu arferion blaenorol Grŵp Monitro Tai Ceredigion, ac ar ôl cael cais gennym cytunodd Barcud y byddai'r Grŵp yn gorff tenantiaid annibynnol, fel yr oedd Grŵp Monitro Tai Ceredigion o'i flaen.

Yn wahanol i lawer o grwpiau tenantiaid eraill ledled Cymru, caiff Grŵp Monitro Barcud ei redeg gan denantiaid a lesddeiliaid ac nid gan y gymdeithas dai. Mae'r holl aelodau yn denantiaid neu'n lesddeiliaid sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i weithio gyda Barcud yn rhan o dîm er mwyn sicrhau bod gwasanaethau, safonau a diwylliant y sefydliad yn canolbwyntio ar y tenantiaid.

O'r dechrau, cydnabu'r Grŵp bwysigrwydd cael cynrychiolwyr tenantiaid o gynifer o drefi a phentrefi ag a oedd yn bosibl, o Geredigion a Phowys. Yn ffodus, wrth i fwy o denantiaid ddod yn ymwybodol o'r Grŵp, mae nifer yr aelodau wedi parhau i gynyddu ac mae gennym aelodau o ardaloedd sy'n ymestyn o Bontrobert i Aberteifi. Er bod y pandemig Covid wedi ein hatal rhag cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb, rydym ni fel llawer o grwpiau eraill wedi symud i gyfarfodydd ar-lein, sydd wedi ein galluogi i barhau â'n gweithgareddau a'u cynyddu mewn rhai achosion.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod o brysur i aelodau'r Grŵp yn dilyn yr uno, gan ein bod wedi ymwneud yn helaeth â Barcud wrth iddo nodi arferion da a gwasanaethau da o'r ddwy gymdeithas a unwyd, a'u rhoi ar waith.

Felly, beth y mae eich cyd-denantiaid wedi bod yn ei wneud? Wel, ble mae dechrau?

- ✓ Creu fideo ar gyfer hyfforddiant i staff Barcud ynglŷn â diwylliant newydd Barcud.
- ✓ Rhoi cyflwyniad i Fwrdd Barcud ar bwysigrwydd cynnwys tenantiaid ac ar ei berthynas waith barhaus â'r Grŵp.
- ✓ Mynychu dau ddigwyddiad cynllunio busnes gyda'r Bwrdd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Rheolwyr Gweithredol er mwyn pennu blaenoriaethau Barcud ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- ✓ Mynychu chwech o gyfarfodydd strategaeth Panel Cyswllt y Tenantiaid, a gynhelir bob deufis, gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr (y Tîm Arwain).
- ✓ Mynychu chwech o gyfarfodydd gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid, a gynhelir bob deufis, gyda rheolwyr gweithredol o'r Adran Dai a'r Adran Cynnal a Chadw.
- ✓ Mynychu deuddeg o gyfarfodydd y Grŵp, a gynhelir bob mis, lle croesawyd gwsteion megis Cadeirydd Bwrdd Barcud, yr Uwch-reoleiddiwr Tai, Prif Weithredwr Barcud, y Cyfarwyddwr Cyllid a TG a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol.
- ✓ Ymgysylltu â Phennaeth yr Awdurdod Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Barcud ynghylch ei bolisi dau gam newydd ar gyfer Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion, sef “Dywedwch Wrthym” – Polisi Sylwadau, Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion”.
- ✓ Ymgysylltu'n uniongyrchol, ac yn annibynnol ar Barcud, â'r Uwch-reoleiddiwr Tai yn ystod ei Aseiad Rheoleiddiol o Barcud.
- ✓ Cyflwyno barn tenantiaid am ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch y “Contractau Enghreifftiol” arfaethedig a'r “Adolygiad o'r Fframwaith Rheoleiddiol”.

Yn wahanol i grwpiau tenantiaid eraill, oherwydd bod gan y Grŵp statws annibynnol, gallwn gymryd rhan mewn ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol heb fod ein hymatebion yn cael eu sensora neu'u newid a heb fod angen caniatâd ein landlord arnom.

- ✓ Adolygu a chymeradwyo llawer o bolisiau megis y Polisi Pennu Rhent, cyn iddynt gael eu cyflwyno i Fwrdd Barcud i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu.
- ✓ Adolygu a chymeradwyo Polisi lechyd a Diogelwch a Lles newydd Barcud, a oedd yn cynnwys cael cynrychiolwyr tenantiaid ar Fforwm lechyd a Diogelwch Barcud.
- ✓ Cynnal ein hadolygiad ein hunain o Daliadau Gwasanaeth a chyflwyno ein hargymhellion i Barcud, a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- ✓ Adolygu a diweddarau ein rhestr wirio ar gyfer archwilio cartrefi gwag.
- ✓ Cynnal nifer o archwiliadau o gartrefi gwag cyn iddynt gael eu hailosod.
- ✓ Adolygu a diweddarau ein rhestr wirio ar gyfer archwiliadau rheoli ystâd.
- ✓ Cynnal archwiliadau rheoli ystâd yn ardal y Drenewydd.
- ✓ Adolygu, diwygio a diweddarau amryw fanylebau ar gyfer gwaith a gynlluniwyd yn ardal Powys.
- ✓ Cymryd rhan yn y cyntaf o nifer o gyfarfodydd datgarboneiddio lle buom yn archwilio'r systemau gwresogi sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn nodi'r ffordd rataf o wresogi ein cartrefi. Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'i atal yn flaenoriaeth fawr i Barcud a'r Grŵp. Rydym yn ystyried hefyd sut y gall Barcud chwarae ei ran o safbwynt mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon.
- ✓ Cynnal cyfarfod cyntaf Barcud o Fforwm Cyswllt y Tenantiaid. Hwn hefyd oedd digwyddiad ar-lein cyntaf Barcud i denantiaid, ac fe'i cynhaliwyd ym mis Mai.
- ✓ Cynnal Cynhadledd i Denantiaid gyntaf Barcud, a gynhaliwyd ar-lein hefyd, a phennu'r thema ar ei chyfer.
- ✓ Mynychu ystod eang o ddigwyddiadau ar-lein gyda thenantiaid o bob rhan o Gymru. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru) ac roeddent yn fodd i denantiaid rannu arfer da a chwrdd â chyrrff eraill megis Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, y Tîm Rheoleiddio Tai a'r Awdurdod Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Roedd y digwyddiadau'n amrywiol ac roeddent yn ymdrin â materion megis Datgarboneiddio, Safon Ansawdd Tai Cymru, y Rhwydwaith Anabledd Tenantiaid, meysydd y dylai tenantiaid fod yn ymwneud â nhw a dyfodol gwaith ymgysylltu â thenantiaid.
- ✓ Rhoi cyflwyniad yn nigwyddiad TPAS Cymru ar gynnwys tenantiaid ym maes lechyd a Diogelwch ac ar sut y mae Barcud wedi cynnwys Grŵp Monitro Barcud yn y maes allweddol hwn.
- ✓ Cymryd rhan mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn adolygu'r gwasanaeth atgyweirio brys y tu allan i oriau swyddfa arferol, a safonau'r gwasanaeth hwnnw.
- ✓ Cymeradwyo sawl polisi gosod lleol cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.
- ✓ Adolygu a diwygio Cynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cynnwys Tenantiaid.
- ✓ Adolygu arolwg "STAR" cyntaf Barcud o denantiaid a phreswylwyr, ac awgrymu cwestiynau ychwanegol i'w cynnwys yn yr arolwg.

Adroddiad ariannol.

Er mwyn i'r Grŵp allu ei reoli ei hun, mae ganddo ei gyfrif banc ei hun a chytundeb cyllido gyda Barcud. Mae'r Grŵp yn cadw cyfrifon cywir sy'n cael eu cyflwyno i Dîm Cyllid Barcud i'w harchwilio'n flynyddol. Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio i dalu costau teithio, llogi ystafelloedd cyfarfod, mynychu cynadleddau a thalu mân dreuliau megis cost nwyddau papur. Pan ffurfiwyd y Grŵp, cytunwyd i drosglwyddo'r arian a oedd gan Grŵp Monitro Tai Ceredigion i Grŵp Monitro Barcud. Ar 6 Tachwedd 2020, dechreuodd y Grŵp â £2610.44, a'r balans heddiw yw £2660.44. Mae'r sefyllfa o ran Covid yn golygu bod holl brif gyfarfodydd y Grŵp wedi'u cynnal ar-lein, ac o ganlyniad nid ydym wedi gwario dim. Yr unig incwm y mae'r Grŵp wedi'i gael yw £50 o iawndal gan Fanc Lloyds o ganlyniad i'r anawsterau a gawsom yn ein hymwneud â'r banc. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig enghreifftiau i ni o sut y gallwn wario bach iawn o arian fel Grŵp, a byddwn yn dysgu o'r profiad hwn. Yn bersonol, o ystyried yr holl oriau y mae'r aelodau yn eu rhoi yn wirfoddol, gallaf ddweud yn hyderus ein bod yn cynnig gwerth am arian. Hoffwn ddiolch i Barcud am roi i ni'r holl gyfarpar TG angenrheidiol i'n galluogi i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac am dalu costau digwyddiadau TPAS Cymru, oherwydd nid oedd pob un ohonynt am ddim.

Mae'r flwyddyn sydd i ddod eisoes yn argoeli'n flwyddyn brysur arall. Un o'r tasgau mwyaf sy'n wynebu Barcud a'r Grŵp yw gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Bydd y Ddeddf yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei rheoliadau tai ei hun sy'n benodol i Gymru, a fydd yn cynnwys cyflwyno "contract meddiannaeth" newydd yn lle pob cytundeb tenantiaeth. Bydd hynny'n golygu cryn dipyn o waith i Barcud a'r Grŵp, a bydd yn rhaid i ni ddechrau ar y gwaith cyn bo hir gan fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd y newid yn cael ei weithredu yn ystod gwanwyn 2022. Mae gan y Grŵp lawer o bryderon am y Ddeddf a'r contract newydd, ac rydym wrthi'n ysgrifennu adroddiad sy'n amlygu ein pryderon ac a fydd yn cael ei anfon at uwch-weinidogion Llywodraeth Cymru ac at gyrrff eraill sy'n ymwneud â thai.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl gyn-aelodau a'r holl aelodau presennol am eu hamser a'u hymrwymiad anhunanol, sydd wedi ein galluogi i fod yn weithgar ers mis Tachwedd – diolch. Ar ran y Grŵp, hoffwn ddiolch hefyd i Barcud am barchu ein cais i barhau'n grŵp tenantiaid annibynnol, am roi cyfleoedd i ni chwarae rhan ar lefel strategol a gweithredol, ac am ein trin fel aelodau gwerthfawr o'r tîm. Os yw landlord am ganolbwyntio o ddifrif ar y tenantiaid, rhaid i'r diwylliant hwnnw gael ei greu o'r brig i lawr ac rydym yn ddiolchgar i Steve Jones (y Prif Weithredwr), Bwrdd Barcud, y Tîm Arwain (y Cyfarwyddwyr), y Tîm Rheoli Gweithredol a holl staff Barcud am eu dull rhagweithiol o gynnwys tenantiaid yn wirioneddol. Rwy'n gwybod y byddai aelodau'r Grŵp am i fi ddiolch yn arbennig hefyd i Sue Thomas (yr Uwch-swyddog Cynnwys Tenantiaid) am ei chefnogaeth ddiwyro, ei charedigrwydd a'i pharch. Diolch, Sue. Chi yw ein Hyrwyddwr Tenantiaid ni.

Paul Clasby,  
Cadeirydd,  
Grŵp Monitro Barcud.